Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 15 Rhagfyr 2014 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Stephen Beach (**Maer - Cadeirydd**)
Cyngr. James Bryan, Elisabeth Culshaw, Sioned Foulkes, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Geraint Woolford ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

139. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyngr. Bob Costain, June Derry, Simeon Jones a Katy Morgan Williams

140. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

141. MR DARREN MILLAR, A.C.

Derbyniwyd cyflwyniad oddi wrth Mr Darren Millar, A.C. a ddywedodd wrth yr aelodau ei fod yma i weithio gyda'r Cyngor Tref er lles y dref a'i hetholwyr. Cyfeiriodd at y ffaith bod ygwaith wedi ei gwblhau ar Gynllun Esmwythyd Llifogydd Glasdir. Mae amryw o etholwyr wedi cysylltu ag ef parthed dyfodol Cartref Gofal Awelon; mae wedi cyfarfod gyda Chydlynydd y Dref i drafod materion yn berthnasol i'r Dref ac mae hefyd wedi cyfarfod gyda Chyngor Sir Ddinbych parthed argaeledd parcio a thrafod pryderon parthed parcio ar-y-stryd. Cymerodd gwestiynau gan aelodau ar ddyfodol Cartrefi Gofal Cyngor Sir Ddinbych; llinellau melyn ar yr A494 yn Wernfechan (penderfyniad wedi ei wneud i osod y rhain ond heb eto wedi ei gyflawni) a phroblemau recriwtio GIG. Diolchwyd iddo gan y Maer.

142. LOGOS MARCHNATA TREF RHUTHUN

Mynychodd Shelly Barratt, Cydlynydd y Dref, y cyfarfod gyda manylion am Logos newydd wedi ei gynhyrchu gan gwmni dylunio o Gaerdydd. Gofynnwyd i'r aelodau ddewis dau Logo newydd i'r dref o safbwynt cwsmer / ymwelydd. Bydd hefyd yn cyflwyno holiadur ar-lein drwy wefan www.surveymonkey.com i gael barn y cyhoedd.

143. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei fod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

24 Tach	Cyfarfod brandio yng Nghastell Rhuthun
25 Tach	Lansio llyfr 'Hanes Rhuthun'.
26 Tach	Cyfarfod Grŵp Llywio Cydlynydd
27 Tach	Cyfarfod Gefeillio yng Nghapel Y Tabernacl
29 Tach	Goleuadau Nadolig
1 Rhag	Eglwys Sant Pedr Lansio 'Angel'
	Mynychu Angladd mam Cyng. Elisabeth Culshaw.
2 Rhag	Agor swyddogol 'Funky Fashionss'
4 Rhag	Sopa yn hwyr
9 Rhag	Cyfarfod o'r Is-bwyllgor gyda Shelly Barratt
	Cyngerdd Carolau Cyngor Sir Ddinbych yn Y Rhyl.
10 Rhag	Cyngerdd Carolau Cyngor Sir Ddinbych Band y Sir
11 Rhag	Gwasanaeth Cyngerdd Carolau Ysgol Rhuthun
12 Rhag	Sant Cyndeyrn ym Manc Barclays
	Parti Nadolig Awelon
	Agor 'Angel' swyddogol Eglwys Sant Pedr.
13 Rhag	Beirniadu Canu Corawl Eglwys Sant Pedr
14 Rhag	Cyflwyno gwobrwyon am y cystadlaethau

144. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. James Bryan	Goleuadau Nadolig, Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon
Cyng. Sioned Foulkes	Goleuadau Nadolig
Cyng. Rosie Hughes-Moseley	Dawns Elusennol y Maer, Sul Coffa
Cyng. Menna Jones	Banc Bwyd, Cyngor Gwirfoddol Sir Ddinbych, Cystadleuaeth 'Llais Angel'.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Corff Llywodraethol Ysgol Pen Barras x 3, Cydlynydd y Dref, Lansio llyfr 'Hanes Rhuthun, Banc Bwyd x 4
Cyng. Anne Roberts	Lansio llyfr 'Hanes Rhuthun, Ymlaen Rhuthun, Marchnad Nadolig, Mynychu Angladd mam Cyng. Elisabeth Culshaw yn Eglwys Llanbedr, Cydlynydd y Dref, Gwasanaeth Carolau Ysgol Rhuthun yn Sant Pedr.
Cyng. Geraint Woolford	Tîm y Dref, Goleuadau Nadolig, Parti Nadolig yn Awelon
Cyng. Emrys Wynne	Goleuadau Nadolig

145. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2014.*

146. MATERION YN CODI

Cof. Rhif 133 - TIM Y DREF - hysbyswyd yr aelodau bod y Parch Stuart Evans wedi ei ethol yn Gadeirydd y Mudiad yma yn ddiweddar. Bydd y swydd o Ysgrifennydd yn cael ei hysbysebu gyda chyfarfod i'w gynnal yn gynnar yn y flwyddyn Newydd.

147. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

148. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

149. IS-BWYLLGOR CYMORTH ARIANNOL

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2014.*
*Hefyd**, PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £100.00 i EisteddfodGenedlaethol Cymru.*

150. Y GWIR ANRHYDEDDUS DAVID JONES, A.S.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ddod a chyfarfod Chwefror ymlaen wythnos ymlaen i gymhwyso Y Gwir Anrhydeddus David Jones, A.S.
***PENDERFYNWYD**: dod â chyfarfodydd y Cyngor Tref a'r Pwyllgorau ymlaen wythnos h.y. Cyfarfodydd Pwyllgorau 2 Chwefror; Cyngor Tref 16 Chwefror.*

151. CYMDEITHAS CLERCOD CYNGHORAU LLEOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried talu tanysgrifiad blynyddol Clerc y Dref o £149.00 i'r Mudiad yma.
***PENDERFYNWYD** : talu tanysgrifiad blynyddol Clerc y Dref o £149.00 i'r Mudiad yma.*

152. IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gytuno dyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Is-bwyllgor yma.
***PENDERFYNWYD**: cyfarfod brynhawn Llun, 12 Ionawr 2015 am 2:00 p.m. yn Neuadd y Dref.*

153. DINESYDD DA 2015

Gofynnwyd i'r aelodau drefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod y Grŵp yma (Aelodaeth ar hyn o bryd: Cyngr. Stephen Beach, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones ac Anne Roberts.

***PENDERFYNWYD**: i'w gynnal yn dilyn y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu nesaf Datganodd Cyngr. James Bryan ac Elisabeth Culshaw ddiddordeb o fod yn aelodau o'r Grŵp hefyd..*

154. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30ain Tachwedd 2014

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

155. CYFRIFON I'W TALU

659	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
660	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		163.20
661	Cyng. Anne Roberts	Costau Teithio		54.00
662	Cyng. Emrys Wynne	Costau Teithio		57.15
663	Glascoed Timber	Gwasanaeth Biniau Gwastraff Cŵn 5 Mai – 20 Hyd	*	624.00
664	Cyng. Stephen Beach	Cysuron Nadolig 2014		69.00
665	Cyng. Stephen Beach	Hawlfraint llun ar gyfer Cardiau Nadolig		30.00
666	Dafydd Williams	Stampiau ayyb		24.20
667	Fineline Printing & Stationery Ltd	Cyflenwad swyddfa gan gynnwys amlenni DL a phapur 100 gm.	*	56.87
668	Coya Cyfyngedig	Marchnata Cydlynydd Tref		2,925.00
669	Clwb Bowlio Gorphwysfa	Cyfraniad		250.00
670	Clwb Cinio Rhuthun	Cyfraniad		100.00
671	Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych	Cyfraniad		100.00
672	Eisteddfod Llangollen	Cyfraniad		100.00
673	Sant Cyndeyrn, Llanelwy	Cyfraniad		100.00
674	Banc Bwyd Dyffryn Clwyd	Cyfraniad		500.00
675	Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol	Tanysgrifiad Blynyddol		149.00
676	Cyngor Sir Ddinbych	Hurio 'Cherry Picker'	*	396.00
677	Fineline Printing	Cardiau Nadolig 100 x A4	*	117.90
678	Eisteddfod Genedlaethol Cymru	Cyfraniad		100.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £214.13)

156. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 26 Ionawr 2015.*